Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Cynwyd Sant
# Pen Yr Ysgol
# Maesteg
# CF34 9YE

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/02/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Cynwyd Sant yn leoliad cyfrwng Cymraeg sydd wedi`i leoli mewn caban ar iard Ysgol Gynradd Cynwyd Sant ym Maesteg. Un o drefi`r cymoedd yw Maesteg yng Nghwm Llynfi. Mae`r lleoliad yn adrodd bod yr ardal yn un sydd o dan gryn anfantais yn gymdeithasol- economaidd. Daw`r plant o gartrefi Saesneg eu hiaith ac yn anaml, os o gwbl, maen nhw`n clywed y Gymraeg yn cael ei siarad yn y gymuned. Nid oedd unrhyw blant o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn bresennol ac nid oedd unrhyw blentyn wedi ei nodi fel un ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn derbyn plant yn dilyn eu pen-blwydd yn 2 oed ac yn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg yn y mis Medi sy`n dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.

Ar hyn o bryd mae 23 o blant ar y gofrestr gyda 10 ohonynt yn blant 3 oed, ac mae 9 o'r plant hyn yn cael eu hariannu. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC ) i ddarparu ar gyfer uchafswm o 16 o blant. Mae'r lleoliad yn gweithredu o 9y.b. tan 12 canol dydd ac 1y.p. tan 3y.p. o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol. Mae cyntedd bach yn arwain at y brif ystafell ddysgu sydd hefyd yn arwain at ardal lle mae`r gegin a thoiled. Mae'r ardal hon hefyd ar gyfer arddangos gwybodaeth ar hysbysfwrdd. Mae`r prif ystafell ddysgu wedi ei gwahaniaethu i ardaloedd o weithgareddau; mae'r ystafell wedi`i haddurno'n ddeniadol ac yn gynnes .

Mae gan y ddau aelod o staff gymwysterau da ac mae ganddynt berthynas dda iawn gyda'r plant a'r rhieni.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan AGGCC yn 2012 ac mae`r argymhellion wedi cael sylw. Roedd yr arolygiad diwethaf gan Estyn yn 2008 ac mae pob un o`r argymhellion wedi cael sylw.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad presennol y Cylch yn dda oherwydd:

- safonau cyflawniad y plant a`u cynnydd;
- y gofal, cymorth a`r arweiniad mae`r plant yn eu mwynhau;
- ansawdd yr addysgu;
- y cyfleoedd dysgu sy`n cael eu darparu ar gyfer y plant;
- ymddygiad ac agweddau`r plant.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella`r lleoliad yn dda oherwydd:

- ansawdd yr hunanarfarnu a`r cynllunio ar gyfer datblygu;
- mae`r staff yn agored i syniadau newydd a gwelliant;
- hanes da`r lleoliad o welliant;
- y gefnogaeth sy`n cael ei rhoi gan athrawes gefnogol yr Awdurdod Lleol.

## Argymhellion

Mae angen i'r lleoliad:

A1 barhau i fonitro`r profiadau dysgu sy`n cael eu darparu ar gyfer y plant.

A2 mireinio`r gweithdrefnau asesu ymhellach a defnyddio`r canlyniadau wrth gynllunio.

A3 rhoi gwybodaeth i rieni fel eu bod yn medru ymwneud yn fwy â dysgu`r plant.

A4 lle`n bosibl, darparu cyfleusterau i`r plant gael mynediad rhydd i`r tu allan.

### *Beth sy'n digwydd nesaf?*

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
| --- | --- |

**Safonau: Da**

Mae'r holl blant yn gwneud cynnydd realistig ac yn cyflawni safonau da yn unol a`u hoed a " man cychwyn ". Mae`r plant yn cofio dysgu blaenorol yn dda ac yn caffael gwybodaeth dda, dealltwriaeth a sgiliau yn dda.

Mae'r holl blant yn hyderus ac yn hapus yn sgwrsio gyda'r arolygydd. Maen nhw`n cyd -weithio â'i gilydd ac yn siarad yn rhydd yn ystod gweithgareddau chwarae. Mae'r holl blant yn gwrando'n astud ar oedolion ac yn barod i ddilyn cyfarwyddiadau yn brydlon. Mae eu hunan - hyder a`u hannibyniaeth yn eu galluogi i ddewis gweithgareddau ac i chwarae`n annibynnol ac mewn grwpiau bach. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau gwrando ar storïau ac mae'r rhai hŷn yn adnabod rhai o'r cymeriadau yn y storïau. Mae'r plant yn mwynhau canu ac yn enwedig caneuon actol ( Lliwiau'r Enfys ). Mae llawer o blant yn mwynhau creu marciau gan ddefnyddio sialc, pensiliau neu greonau ac yn ymwybodol o rai o swyddogaethau ysgrifennu, fel gwneud rhestrau.

Mae'r plant yn datblygu sgiliau mathemategol ac yn defnyddio iaith fathemategol, fel "llawn, gwag, hanner llawn " fel wrth chwarae gyda thywod. Mae'r holl blant yn adnabod siapiau dau ddimensiwn syml fel " trionglau , cylch a sgwâr", ac mae ychydig yn adnabod siapiau mwy cymhleth fel " ciwbiau a sfferau " .

Mae pob plentyn yn datblygu dealltwriaeth o dechnoleg, gan gynnwys camerâu digidol ac i-Pad. Maen nhw`n gwybod bod rhai teganau yn medru cael eu rhaglennu a gweithredu gan ddefnyddio switsys.

Yn y lleoliad cyfrwng Cymraeg hwn, mae`r plant yn datblygu geirfa realistig sy'n eu galluogi i barhau â'u haddysg yn y Gymraeg. Mae hyn yn gynnydd da mewn perthynas â'u " man cychwyn ". Mae geirfa`r plant yn cynnwys cydnabod ac ymateb yn briodol i oedolion a defnyddio geiriau penodol ochr yn ochr gyda`u defnydd o Saesneg, fel " we are going to look for siapiau". Mae`r trochi hyn yn yr iaith Gymraeg yn eu galluogi i gyrraedd safonau realistig. Roedd y rhieni, mewn trafodaeth, yn datgan lefel uchel o foddhad gyda datblygiad personol, cymdeithasol ac academaidd y plant.

**Lles: Da**

Mae pob plentyn yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn y gwahanol weithgareddau sy`n cael eu gosod ar eu cyfer. Mae ganddynt ddigon o hunan-hyder i wneud dewisiadau a gweithio'n annibynnol ond yn eithaf hapus i weithio mewn parau neu mewn grwpiau bach. Mae`r holl blant yn dangos ymddygiad da, yn ystyriol ac yn gwrtais. Maen nhw`n ymwneud yn dda iawn â'i gilydd ac yn dangos anwyldeb tuag at ei gilydd. Mae gan yr holl blant agweddau da tuag at ddysgu ac yn medru cynnal eu gallu i ganolbwyntio am gyfnodau sylweddol o amser wrth ymwneud â thasgau.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae`r profiadau dysgu yn cael eu cynllunio'n dda ac yn dal diddordeb y plant yn llwyddiannus gan sicrhau bod pob un yn cymryd rhan weithredol yn y gwahanol weithgareddau. Mae`r cynllunio yn cael ei wneud ar y cyd ac yn ddigon hyblyg i ymateb i ddigwyddiadau lleol, fel eira annisgwyl. Roedd hyn yn ysgogiad ar gyfer ystod o weithgareddau, fel dyfalu beth oedd wedi gadael marciau yn yr eira .

Mae`r cynllunio yn canolbwyntio`n dda ar ddatblygu cynnydd plant tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen ac er bod y cwricwlwm yn adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau presennol y plant mae ychydig o anghydbwysedd yn y ddarpariaeth.

Nodwedd nodedig a da o'r cynllunio a`r profiadau dysgu yw'r pwysigrwydd sy`n cael ei roi i ddatblygu perthynas bersonol. Mae'r cynllunio yn llwyddo i gynnwys cyfleoedd da i blant weithio gyda'i gilydd ac i ffurfio perthynas dda. Mae diwylliant o oddefgarwch yn y lleoliad ac mae`r plant yn parchu ei gilydd. Mae ganddynt yr hyder i fynd i'r afael â phrofiadau newydd ac i ddod yn ddysgwyr annibynnol. Er bod y prif ffocws yn ddiweddar wedi bod ar ddatblygu sgiliau rhifedd plant, mae`r cynllunio wedi cynnwys ystod lawn o sgiliau yn unol â gofynion deilliannau`r Cyfnod Sylfaen.

Mae'r amgylchedd dan do yn ddychmygus ac yn darparu cyfleoedd i`r plant i ddatblygu eu sgiliau. Mae'r amgylchedd tu allan yn galluogi plant i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o bethau byw a sut maen nhw`n derbyn gofal.

Yn y gymuned Seisnigaidd hon, mae datblygiad yr iaith Gymraeg yn cael blaenoriaeth yn ogystal â`r dathliadau o wyliau Cymreig.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ofynion y Cyfnod Sylfaen a`r wybodaeth ddiweddaraf o ddatblygiad plant. Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o blant, pa beth bynnag eu gallu, ac yn cynllunio cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plant a`u harwain gan oedolion. Mae pwyslais priodol ar ddarparu cyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae ac ymglymiad gweithredol .

Mae'r staff yn fodelau rôl da ac mae hyn yn helpu`r plant i ddatblygu eu sgiliau iaith. Mae`r plant yn cael eu parchu fel unigolion ac mae eu hymddygiad yn dda iawn. Mae`r staff yn gwybod pryd i ymyrryd wrth i`r plant chwarae a phryd i ganiatáu iddynt weithio'n annibynnol. Mae'r ystafell ddysgu`n darparu `r plant ag amgylchedd heriol a chyffrous sy`n sicrhau bod y plant yn cymryd rhan yn y dysgu. Mae'r defnydd da o gwestiynu gan y staff yn canolbwyntio`n dda ar gynnal gallu`r plant i gymryd rhan ac ar ddatblygu eu medrau meddwl.

Mae cyflawniad a chynnydd pob plentyn yn cael ei gofnodi ar llyfrynnau asesu unigol. Mae'r staff yn wyliadwrus wrth nodi cyflawniad plant ac mae cynnydd pob plentyn yn cael ei gofnodi mewn llyfryn "Fy nhaith ddysgu ". Mae`r llyfrynnau`n mynd gyda`r

plant i'r ysgol sy'n eu derbyn.  Mae`r cofnodion yn cynnwys cyflawniad y plant ar draws y chwe maes dysgu .

Mae`r cynllunio, er enghraifft, mewn rhifedd, yn cymryd cyflawniad pob plentyn i ystyriaeth, sy`n galluogi tasgau ffocws i weddu`n dda i anghenion y plant ac adnabod y camau nesaf yn y dysgu.  Mae hyn yn enghraifft o arfer dda sydd angen ei ymestyn, yn enwedig wrth adnabod medrau iaith y plant.

Mae`r rhieni yn cael eu hysbysu am gynnydd plant trwy gyfarfodydd anffurfiol rheolaidd ac adroddiadau diwedd blwyddyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae polisïau a threfniadau perthnasol yn eu lle i hyrwyddo byw'n iach, i annog plant i ymddwyn yn gynaliadwy ac i sicrhau eu lles. Mae iechyd a lles emosiynol a chorfforol y plant yn cael blaenoriaeth ac mae barn y rhieni yn cadarnhau hyn.

Mae`r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion. Maen nhw`n gwybod eu bod yn cael eu parchu ac maen nhw, yn eu tro, yn dangos parch tuag at oedolion. Drwy eu hymatebion, mae`r plant yn dangos eu bod yn gwybod at bwy i droi am gymorth ac maen nhw`n ddigon hyderus i ofyn am gymorth os oes angen. Mae'r lleoliad yn amgylchedd tawel heb unrhyw arwydd o ymddygiad gwrth – gymdeithasol.

Mae gan bob plentyn ddealltwriaeth dda o fyw mewn cymuned. Mae'r lleoliad yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a goddefgarwch a dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir.

Mae'r plant yn dangos cyfrifoldeb a pharodrwydd i rannu.  Mae ymddygiad yn dda ac mae plant yn awyddus i helpu, fel wrth dacluso.

Drwyddi draw, mae'r plant yma`n dangos agweddau da a hunan - ddisgyblaeth sy'n cyfrannu'n dda at y teimlad o les sy`n amlwg yn y lleoliad.  Mae`r plant yn cael eu hannog i ymddwyn yn gynaliadwy, fel wrth gompostio gwastraff bwyd a chasglu papur.

Mae'r lleoliad yn dathlu traddodiadau Cymreig, fel Dydd Gŵyl Dewi.

Mae anghenion dysgu`r plant yn cael eu nodi wrth iddynt ddechrau yn y lleoliad ac yn cael eu bodloni.   Mae trefniadau da yn eu lle i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.  Mae`r plant sydd wedi`u nodi ag anghenion o'r fath yn cael eu cynlluniau addysgol unigol eu hunain ac mae`r rhieni yn cymryd rhan yn llawn.  Mae cysylltiadau da wedi eu sefydlu gyda chyrff proffesiynol perthnasol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle mae gan yr holl blant hawl gyfartal i bob agwedd o`r cwricwlwm.  Mae`r ymarferwyr yn sensitif i anghenion y plant ac yn rhoi iddynt brofiadau dysgu sy`n seiliedig ar chwarae.

Mae'r lleoliad yn darparu `r plant ag amgylchedd cefnogol tawel sy`n rhydd oddi wrth unrhyw ffurf o ymddygiad gormesol neu wrth-gymdeithasol.

Mae gan ymarferwyr gymwysterau a phrofiad priodol. Mae`r adnoddau`n gweddu`n dda i anghenion y plant ac i ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mae`r plant yn defnyddio'r iard tu allan ar gyfer gweithgareddau corfforol o ddydd i ddydd. Mae yna hefyd gynwysyddion ar gyfer tyfu hadau a bylbiau. Mae ymweliadau â'r goedwig gyfagos yn galluogi`r plant i chwilio am greaduriaid bach a defnyddio chwyddwydrau i`w harsylwi. Nid oes gan y lleoliad gyfleusterau sydd yn galluogi`r plant i gael mynediad rhydd i`r amgylchedd tu allan.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle mae gan yr holl blant hawl gyfartal i bob agwedd o`r cwricwlwm. Mae`r ymarferwyr yn sensitif i anghenion y plant ac yn rhoi iddynt brofiadau dysgu sy`n seiliedig ar chwarae.

Mae'r lleoliad yn darparu `r plant ag amgylchedd cefnogol tawel sy`n rhydd oddi wrth unrhyw ffurf o ymddygiad gormesol neu wrth-gymdeithasol.

Mae gan ymarferwyr gymwysterau a phrofiad priodol. Mae`r adnoddau`n gweddu`n dda i anghenion y plant ac i ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mae`r plant yn defnyddio'r iard tu allan ar gyfer gweithgareddau corfforol o ddydd i ddydd. Mae yna hefyd gynwysyddion ar gyfer tyfu hadau a bylbiau. Mae ymweliadau â'r goedwig gyfagos yn galluogi`r plant i chwilio am greaduriaid bach a defnyddio chwyddwydrau i`w harsylwi. Nid oes gan y lleoliad gyfleusterau sydd yn galluogi`r plant i gael mynediad rhydd i`r amgylchedd tu allan

**Gwella ansawdd: Da**

Mae proses hunanarfarnu'r lleoliad yn effeithiol ac yn defnyddio gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn rheolaidd. Mae'r staff yn hunan-feirniadol ac yn asesu canlyniadau eu haddysgu a`r dysgu gan y plant. Mae`r ymarferwyr yn adnabod eu lleoliad yn dda. Mae`r hunanarfarnu wedi dibynnu hefyd ar werthusiad allanol ac mae cyfraniadau athrawes gefnogi`r awdurdod lleol wedi bod yn amhrisiadwy. Mae ei chyngor a`i dadansoddiad wedi cael eu derbyn yn llawn gan yr ymarferwyr ac wedi`u gwreiddio'n gadarn yng ngwaith y lleoliad. Mae hyn yn enghraifft o arfer dda lle mae cynllunio yn cael ei rannu a'i adolygu'n rheolaidd. Canlyniadau hyn yw gwelliant mewn safonau ac ansawdd y ddarpariaeth.

O ystyried y raddfa amser, mae`r monitro mewn cyfnod cynar o ran datblygiad ond yn cael effaith. Mae'r lleoliad yn ymwybodol iawn o hyn ac mae monitro yn cael ei amlygu yn y cynllun datblygu cyfredol. Mae'r cynllun datblygu yn blaenoriaethu

materion sy`n cael eu nodi er mwyn gwella`r lleoliad ac maen nhw`n seiliedig ar ddyraniad cyllid priodol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae`r ymarferwyr wedi bod yn effeithiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf drwy sefydlu perthynas dda gyda rhieni a gofalwyr. Mewn trafodaeth gyda nifer o rieni a gofalwyr, mae'n amlwg eu bod yn gefnogol iawn o'r lleoliad ac yn gwerthfawrogi ei gyfraniad i ddatblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol eu plentyn. Siaradodd rhieni a gofalwyr am fwynhad a pharodrwydd eu plant i fynychu ac am eu brwdfrydedd ar gyfer eu gweithgareddau. Siaradodd pob un yn uchel iawn am y staff. Maen nhw`n teimlo ei bod yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol iawn. Mae'r bartneriaeth hon yn gwneud cyfraniad cryf i gyflawniad da a lles y plant.

Mae rhieni a gofalwyr yn cael eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd o waith y lleoliad. Maen nhw`n cael eu gwahodd i'r lleoliad ar ddiwedd pob hanner tymor i ddathlu cyflawniadau eu plentyn/plant ac i weld eu gwaith. Mae rhieni hefyd yn ymweld ar gyfer gweithgareddau codi arian, fel codi arian ar gyfer ardal wedi'i ffensio tu allan.

Mae cysylltiadau da gyda'r ysgol gynradd sy'n derbyn y plant. Mae'r plant yn adnabod yr athrawon sy'n ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd. Mae`r trefniadau trosglwyddo yn effeithiol iawn ac yn gryfder yn y lleoliad.

Mae cysylltiadau effeithiol yn eu lle gyda chyrff proffesiynol ond yn enwedig gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae ei chyfraniad wedi bod yn hanfodol wrth ddatblygu`r lleoliad i`w safon da presennol. Mae hyn yn enghraifft o arfer dda iawn.

Tanddatblygedig yw`r cysylltiadau cymunedol a gwaith y pwyllgor rheoli.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned ddysgu sy`n gryf. Mae gan y staff gymwysterau priodol ac maen nhw wedi mynychu ystod dda o gyrsiau proffesiynol sy'n cefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus. Mae`r ymarferwyr yn defnyddio ystod dda o strategaethau addysgu sy'n llwyddo i ennyn diddordeb plant a sicrhau eu bod yn cymryd rhan. Mae`r ymarferwyr yn hunan-feirniadol ac yn chwilio am ffyrdd i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y plant. Maen nhw`n ystyried eu harfer eu hunain ac yn chwilio am ffyrdd o wella ac elwa o gyngor.

Mae gan y lleoliad adnoddau da sy`n ddiwallu anghenion y plant. Mae'r ystafell ddysgu wedi`i gwahaniaethu'n dda i ardaloedd o weithgareddau. Mae`r plant yn defnyddio`r iard i chwarae y tu allan yn rheolaidd ond, hyd yma, nid oes ganddynt fynediad rhydd i`r tu allan.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Nid oes unrhyw sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd (llai na 10).

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |